Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Cwmcynfelin Ltd**

**Plas Cwmcynfelin**
**Clarach**
**Aberystwyth**
**SY23 3DN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/05/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Plas Cwmcynfelin Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Plas Cwmcynfelin Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 55 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Mai 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda, ac maent yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r dogfennau gofal a welwyd, gan gynnwys asesiadau, cynlluniau personol ac asesiadau risg, yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod cynlluniau personol yn cael eu cwblhau'n amserol a bod y bobl dan sylw a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu'r cynlluniau hynny. Mae angen gwneud gwelliannau i rai arferion yn ymwneud â meddyginiaeth.

Mae gan Blas Cwmcynfelin awyrgylch cartrefol ynghyd â gerddi dymunol a hygyrch. Caiff ymwelwyr eu croesawu ar adegau sy'n gyfleus i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Cynhelir gweithgareddau drwy gydol yr wythnos a chaiff digwyddiadau cymdeithasol ac achlysuron eu cynllunio fel bod y bobl yn rhan o'r gymuned ehangach. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod llai o bobl yn cael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir. Mae'r cartref mewn cyflwr da ac mae gwaith yn mynd rhagddo i addurno'r lleoliad ac adnewyddu'r carpedi a'r dodrefn.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn y cartref bob dydd. Mae'r trefniadau recriwtio yn ddigonol ond nid yw tystysgrifau adnewyddu pob aelod o'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. Mae angen gwneud gwelliannau i drefniadau goruchwylio a hyfforddi unigolion. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn cymryd camau recriwtio rhagweithiol ond maent yn cydnabod bod prinder nyrsys cofrestredig a bod hyn, felly, yn effeithio ar lefelau staffio. Mae prosesau goruchwylio da ar waith ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llwyr.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae'r staff yn mwynhau treulio amser gyda'r bobl hyd yn oed pan nad ydynt ar ddyletswydd. Gwelwyd rhyngweithio ystyrlon. Dangosir empathi a gofal tuag at y bobl ynghyd â dealltwriaeth o'r broses bontio ar gyfer pobl sydd newydd gael eu derbyn i'r cartref. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym "*I love it and feel like I am giving back".*

Mae'r bobl yn gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Yn ystod yr ymweliadau arolygu, gwelsom sesiwn ymarfer corff newydd mewn cadair freichiau yn cael ei chyflwyno. Roedd sesiynau celf yn cael eu cynnal hefyd a dangosodd y bobl y cynnydd roeddent wedi'i wneud gyda'u paentiadau a'u darluniadau. Dywedwyd wrthym *"We really enjoy it – we have a go".* Mae aromatherapydd yn ymweld drwy gydol yr wythnos ac yn treulio amser gyda'r bobl os ydynt yn dymuno. Dywedodd un person wrthym, *"Yes I really like it here – they support and help me with washing and walking and I can enjoy what I like to do"*

Mae gan y bobl lais a gellir eu cefnogi i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd. Gwahoddir y bobl i gyfrannu a dweud beth sy'n gweithio'n dda yn y cartref a beth y gellir ei wella. Nid oes gan y bobl lais o fewn eu cynlluniau personol eu hunain bob amser am nad yw'r adolygiadau bob amser yn cynnwys y person neu'i gynrychiolydd.

Lle bo hynny'n bosibl, caiff y bobl eu cefnogi â dewisiadau gan amlaf. Gwelsom fod dewis iaith y bobl yn cael ei chofnodi ar ddogfennau gofal a chlywsom y Gymraeg yn cael ei defnyddio os oedd pobl yn dymuno hynny. Gall pobl weld ymwelwyr ar adegau sy'n gyfleus iddynt.
Clywsom fod bwydlenni â lluniau ar gael a gwelsom bobl yn cael cynnig opsiynau eraill heblaw am y prif bryd bwyd neu gallai'r prif bryd bwyd gael ei addasu i'w dymuniad. Dywedwyd wrthym *"The food is lovely and if there is anything we dont like they do something else for us"* a *"Yes dinner is very nice and they will do alternatives if X doesn't like something".* Mae nifer yr ystafelloedd a rennir yn y cartref yn fwy na'r uchafswm ar gyfer deiliadaeth y cartref, felly nid yw'r bobl bob amser yn cael cynnig ystafell sengl fel y dylent.

Nid yw'r bobl yn cael eu diogelu mewn ffordd gyson. Nid yw'r lefelau nyrsio cofrestredig yn gyson â'r hyn a amlinellir yn Natganiad o Ddiben y gwasanaeth. Nid yw meddyginiaethau ar gael bob amser ac felly nid ydynt yn cael eu gweinyddu fel y rhagnodir bob amser. Ni chaiff y wybodaeth hon ei rhannu fel sy'n ofynnol. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu ond mae angen gwneud gwelliannau i fathau eraill o hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gan y staff y wybodaeth i gadw'r bobl yn ddiogel. Er bod gan y darparwr arferion recriwtio digonol, ni chaiff gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu hadnewyddu fel sy'n ofynnol sy'n golygu bod rhai aelodau o'r staff yn gweithio heb y dystysgrif gyfredol ofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol a welwyd yn gyfredol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae asesiadau manwl ar gael ynghyd ag asesiadau risg yn ôl y gofyn. Roedd dogfennau gofal ychwanegol yn cynnwys gwybodaeth am ddeiet, maeth a newid safle. Caiff llyfrynnau 'Dyma fi' eu cwblhau gan berthnasau. O'r pedair ffeil a welsom, nodwyd bod un ohonynt yn cynnwys cynllun personol na chafodd ei gwblhau o fewn yr amserlen ofynnol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff cynlluniau personol eu diweddaru bob mis o leiaf gan y staff; fodd bynnag, ni chaiff y bobl na'u cynrychiolwyr eu cynnwys yn gyson mewn adolygiadau chwarterol. Cadarnhaodd y teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw nad ydynt yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd fel cynrychiolwyr eu perthnasau. Dywedwyd wrthym "*If we were involved that would make us feel a lot more heard*". Trafodwyd hyn fel rhan o'r arolygiad a dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr wrthym eu bod yn gweithio i wahodd y bobl a'u teuluoedd i adolygiadau. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Wrth arsylwi ar arferion meddyginiaeth, gwelsom y staff yn rhoi meddyginiaethau i bobl mewn ffordd ddiogel gan warchod eu hurddas. Wrth edrych ar Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth, nodwyd nad oedd rhai meddyginiaethau ar gael am fod problemau â'r cyflenwad. Gwelsom nodiadau a chofnodion i ddangos bod ceisiadau am fwy o feddyginiaethau wedi cael eu cyflwyno i'r fferyllfa. Nid oedd y canlyniadau o beidio â rhoi'r meddyginiaethau a ragnodwyd i bobl wedi cael eu trafod â'r rhagnodwr, y tîm diogelu na chomisiynwyr. Ni chynhelir archwiliadau ac nid oedd meysydd ymarfer eraill, fel siartiau a lenwir â llaw nad oeddent yn cynnwys llofnodion, wedi cael eu nodi na'u datrys. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff i gyd a gwelsom arferion da wrth ei ddefnyddio. Gwelsom rai ffedogau yn hongian dros ganllawiau a gwelsom fod rhai slingiau nas defnyddir ar gyfer teclynnau codi yn cael eu storio mewn ystafell ymolchi gymunedol. Dywedodd y rheolwr wrthym y byddai'r eitemau hyn yn cael eu cadw mewn mannau priodol. Mae polisi atal a rheoli heintiau ar waith ac mae angen i rai aelodau o'r staff ddiweddaru eu hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Ar ddiwrnodau'r ymweliadau arolygu, gwelsom arferion codi a chario da. Dywedodd un teulu wrthym *"Really grateful for X to be here"* ac *"I wouldnt want X anywhere else – its lovely here. The staff are always in and out and that is so reassuring for when I am not here".*

## Yr Amgylchedd

Mae Plas Cwmcynfelin yn gartrefol ac er ei fod yn brysur, mae awyrgylch dymunol a hamddenol yno. Gall y bobl fwynhau golygfeydd o dir y cartref a mynd allan i'r gerddi os ydynt yn dymuno. Mae'r staff yn galluogi'r bobl i werthfawrogi'r gerddi drwy osod blodau ffres o'r ardd o amgylch y cartref ac i'r bobl hynny sy'n mwynhau gwylio'r adar, mae nwyddau bwydo adar wedi'u gosod y tu allan i'w hystafelloedd a'r ardaloedd cymunedol.

Roedd gan y bobl welyau y gellir eu haddasu a chyfarpar codi a chario yn dibynnu ar eu canlyniadau personol. Gwelwyd bod y cyfarpar i gyd yn cael ei wasanaethu a'i wirio fel sy'n ofynnol. Gallem weld bod yr amgylchedd yn cael ei wella'n barhaus gyda gwaith paentio yn mynd rhagddo a charpedi newydd a gwaith addurno diweddar i'w gweld.

Ers i'r gwasanaeth ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, nid yw'r darparwr wedi bodloni'r gofyniad i leihau nifer yr ystafelloedd a rennir i 15% o gyfanswm nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya. Er bod y darparwr yn helpu i dderbyn pobl i'r cartref yn unol â'u hasesiad a'r anghenion y nodwyd sydd ganddynt, nid oes tystiolaeth i ddangos bod pobl yn gwneud dewis cadarnhaol i rannu ag unigolion cymharus y maent yn eu hadnabod. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.  Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd a hunaniaeth y bobl ac roedd eu hystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol wedi'u personoli â phethau o ddiddordeb iddynt. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd preifatrwydd clywadwy bob amser yn bosibl mewn ystafelloedd a rennir pan fo llenni gwahanu cludadwy yn cael eu defnyddio.

Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae'r rhain yn gyfredol ac ar gael yn gyfleus yn ystafelloedd gwely'r bobl. Caiff gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd eu cynnal. Mae'r rhain yn cynnwys arolygiadau o osodiadau trydanol, systemau synhwyro tân a larymau tân. Wrth gerdded o gwmpas y cartref, gwelsom fod rhai drysau tân yn cael eu cadw ar agor ar gais y bobl. Gwnaethom drafod defnyddio mecanweithiau hunan-ryddhau sy'n addas i ddrysau tân â'r rheolwr. Mae'r asesiad risg tân yn dyddio'n ôl i 2020 a dywedodd y rheolwr y byddai'n trefnu asesiad mwy cyfredol. Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw un o staff y gwasanaeth wedi diweddaru eu hyfforddiant tân yn ystod y 12 mis diwethaf. Ers yr arolygiad, mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi ein hysbysu bod yr hyfforddiant hwn wedi cael ei drefnu ar gyfer y staff.

Cafodd y gwasanaeth sgôr o 5 ar gyfer hylendid bwyd yn gynharach eleni.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn goruchwylio'r cartref bob dydd. Gwelwyd polisi drws agored drwy gydol yr arolygiad. Dywedodd y staff wrthym, *“Very happy with the support”* a *“We manage really well – everyone is approachable and friendly and we work as a team”.*

Mae prosesau recriwtio yn ddigonol a chaiff manylion personol a geirdaon eu gwirio. Caiff y staff eu cefnogi i gynnal eu cofrestriad â chyrff rheoleiddio/galwedigaethol fel Gofal Cymdeithasol Cymru. Er y gwneir ceisiadau am wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn i'r staff ddechrau gweithio, ni chaiff y gwiriadau hyn eu hadnewyddu bob amser. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Dywedwyd wrthym fod staff newydd yn cwblhau hyfforddiant sefydlu yn unol â Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru a'u bod yn treulio sawl wythnos yn gweithio fel staff ychwanegol. Mae cofnodion goruchwylio yn fanwl ac yn cynnwys adborth adeiladol ond ni chaiff unigolion eu goruchwylio bob chwarter fel sy'n ofynnol. Mae cofnodion hyfforddiant yn dangos nad yw'r staff wedi dilyn hyfforddiant gofynnol ac arbenigol yn rheolaidd. Er enghraifft, mae llai na hanner y tîm wedi cael hyfforddiant Iechyd a Diogelwch. Nid yw hanner y nyrsys a'r gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant dementia ac nid yw mwy na dwy ran o dair o'r nyrsys a'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant 'Gofal Diwedd Oes'. Cydnabu'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr ei bod yn anodd goruchwylio'r staff a chael/darparu hyfforddiant. Fel y dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol yn yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal ym mis Ionawr 2023: "*We need to further improve our staffing levels so that we can reinstate our in-house training programme*."
Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Roedd lefelau staffio ar adeg yr ymweliad arolygu yn adlewyrchu'r rota a'r Datganiad o Ddiben. Fodd bynnag, wrth edrych ar y rota am gyfnod o bythefnos, nid oedd y nifer gofynnol o nyrsys cofrestredig a nodir yn y Datganiad o Ddiben yn gweithio ar bron i hanner y shifftiau a welsom. Ar yr adegau hynny, mae un nyrs gofrestredig yn gyfrifol am ddau adeilad y cartref. Dywedodd y staff wrthym “*Yes its busy but calm too though we get our days”* a “*The best situation is put together and achieved”.* Cadarnhaodd yr Unigolyn Cyfrifol ei bod yn anodd recriwtio nyrsys cofrestredig. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Er bod yr Unigolyn Cyfrifol yn y cartref bob dydd ac yn ei oruchwylio'n dda, nid yw'r systemau sydd ar waith i fonitro'r gwasanaeth yn ysgogi gwelliannau i ansawdd y gofal a'r

cymorth a ddarperir. Mae hyn i'w weld yn yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Nid yw meddyginiaethau ar gael bob amser ac felly nid ydynt yn cael eu gweinyddu fel y rhagnodir i bawb. Ni chaiff hyn ei ddwyn i sylw'r rhagnodwr, y tîm diogelu na chomisiynwyr. | Newydd |
| 35 | Nid yw'r darparwr wedi gwneud cais am dystysgrif newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth, o leiaf bob tair blynedd, fel sy'n ofynnol. | Newydd |
| 45 | Mae nifer yr oedolion sy’n cael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir yn fwy na 15% o gyfanswm nifer yr oedolion sy’n cael eu lletya gan y gwasanaeth. | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| 34 | Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau ar bob adeg fod nifer digonol o staff sydd â’r cymwysterau a'r hyfforddiant addas wedi eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth, gan roi sylw i’r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth ac anghenion gofal a chymorth y bobl. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael yr hyfforddiant craidd na'r hyfforddiant arbenigol gofynnol i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gefnogi pobl yn y gwasanaeth. Ni chaiff sesiynau goruchwylio ac arfarnu unigol eu cwblhau fel sy'n ofynnol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Nid yw'r bobl a/neu'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys bob amser yn y broses o adolygu eu cynlluniau personol. | Newydd |
| 80 | Nid yw system sicrhau ansawdd y darparwr wedi gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. | Newydd |
| 15 | Ni chaiff cynlluniau personol eu cwblhau o fewn yr amserlen ofynnol bob amser. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/07/2023